# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **03 Gorffennaf 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gareth Jones, Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34092** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd sydd wedi atodi.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Cydymffurfio a dyletswydd A6 o'r Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016

**3. CYFLWYNIAD**

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6 o'r Ddeddf Amgylchedd Cymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd. Cyhoeddir y cynllun hwn er mwyn cydymffurfio a'r dyletswydd cyfreithiol yma.

4. **RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynodd Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd ehangach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru.

Mae 'cydnerthedd ecosystemau' yn golygu pa mor dda y gall ecosystemau ymdopi ag unrhyw darfu arnynt – boed drwy ei wrthsefyll, adfer yn ei sgil, neu addasu i'r tarfu hwnnw. Gall ecosystemau cydnerth ddal ati i ddarparu gwasanaethau a manteision er gwaethaf ytarfu hwn.

Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, cyn belled ag y bod hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynllunio busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol. Er mwyn cydymffurfio â

dyletswydd A6, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd. Cyhoeddir y cynllun hwn er mwyn cydymffurfio a'r ddyletswydd gyfreithiol yma

Nod Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yw:

- Amlinellu pam fod bioamrywiaeth Gwynedd mor bwysig
- Esbonio cefndir deddfwriaethol y cynllun
- Adnabod beth sydd ei angen gan Awdurdodau Cyhoeddus i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd yma
- Nodi'r Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys camau gweithredu cyfredol y Cyngor ar gyfer bioamrywiaeth a'r camau arfaethedig yn 2017-19.

Fe ymgynghorwyd a holl adrannau'r cyngor cyn drafftio'r Cynllun yn ystod cychwyn 2017 ac eto cyn y fersiwn derfynol yn 2018

Er bod y Cynllun wedi llithro o ran dyddiad cyhoeddi yn sgil toriadau staffio ac ail strwythuro o fewn yr Adran, dylid nodi fod y gweithredoedd wedi eu nodi ynddo eisoes yn mynd rhagddo.

Rhaid cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2019 a phob tair blynedd wedi hynny, ynghylch yr hyn y bydd yr awdurdod wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd, a bydd y Cynllun Gweithredu sydd yn rhan 60 o'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yn gosod y sylfaen ar gyfer yr adroddiadau hynny.

Dylid nodi nad yw'r cynllun yma yn adnabod na gofyn i unrhyw adran am adnoddau ychwanegol tu hwnt i adnoddau presennol.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, cadarnhau gyda'r Adrannau perthnasol y gweithredoedd yn y Cynllun Gweithredu yn rhan 60 y maent yn gyfrifol amdanynt.

Adolygu'r cynllun diwedd 2019 yn dilyn ymgynghori ag oll adrannau'r cyngor.

Cyhoeddi adroddiad diwedd 2019, a phob 3 blynedd wedyn ynghylch yr hyn mae'r awdurdod wedi ei wneud i gydymffurfio a'r ddyletswydd.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghoriadau gydag holl Adrannau'r Cyngor.
Ymgynghoriadau gyda'r Cynghorydd Angela Russell yn ei rôl fel Pencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd.

## 7 BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Prif Swyddog Cyllid:

Nodaf fod y frawddeg ddiwethaf yn rhan 4 o’r adroddiad yn cadarnhau nad yw’r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yn gofyn am adnoddau ychwanegol, a disgwylir i wasanaethau’r Cyngor weithredu fel bo angen o fewn eu cyllidebau presennol.

### Swyddog Monitro:

Nodir fod dyletswydd statudol ar y Cyngor o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 i baratoi a chyhoeddi cynllun o ran sut mae’r Cyngor yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae’r cynllun yn cyfarch hyn. Nodir y gofyn trawsadrannol mae’r cynllun yn ei osod a’r angen hefyd fod yn ymwybodol o’r cyfrifoldebau o dan y Cynllun Gweithredu.

## Atodiad

Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd (Drafft)